

AUBREY, THOMAS (1808 - 1867), gweinidog Wesleaidd

Enw: Thomas Aubrey
Dyddiad geni: 1808
Dyddiad marw: 1867
Priod: Elizabeth Aubrey (née Williams)
Rhiant: Anne Aubrey
Rhiant: Thomas Aubrey
Rhyw: Gwryw
Gawedigaeth: gweinidog Wesleaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Albert Hughes Williams

Ganwyd 13 Mai 1808 yng Nghefncoedcymer, plentyn hynaf Thomas ac Anne Aubrey. Dechreuodd bregethu cyn bod yn 15 oed, a derbynwyd ef i'r weinidogaeth Wesleaidd yn 1826. Teithiodd ar nifer o gylchdeithiau yng Ngogledd Cymru ac yn Llundain, Lerowl, a Merthyr Tydfil rhwng 1826 a 1865, pan aeth yn uwchrif. Bu'n gadeirydd talaith Gogledd Cymru o 1854 i 1865. Priododd Elizabeth, merch Robert a Gwen Williams, Rhuthun, 6 Ebrill 1831. Bu farw yn Rhyl, 16 Tachwedd 1867.

Y mae Thomas Aubrey yn un o wîr amlycaf Wesleaeth Gymreig. Pregethwr huawdl a llwyddiannus ydoedd yn anad dim, eithr nid oedd ei lwyddiant fel gweinyddwr lawer llai, er lleied ei ddiddordeb mewn materion gweinyddol cylchdeithio cyn 1854. Bu'n gyfrwng i drefnu cyfarfodydd o swyddogion cylchdeithiau cyfagos i draffod cyflwr ysbrydol yr eglwys; i sefydlu cyfarfodydd diwygiadol a thrysurfa cenhadaeth gartref y dalaith ogledol; i hyrwyddo adeiladu tai cylchdeithiol; ac, yn bennaf oll, i greu trysorfa capelau talith Gogledd Cymru - y weithred weinyddol fwyaf, yn ddiua, yn hanes yr enwad yn y 19eg ganrif. Bu'n amlwg yn amddiffyn trefn ac athrawiaethau Wesleaeth Gymreig; yr oedd yn Brotestant selog, er na chymerodd ran amlwg mewn gwleidyddiaeth; ac yr oedd yn' un o'r darlithwyr poblogaidd cyntaf yng Nghymru. Ni fu'r rhudd oddi wrth feirniadaeth rhai o'i aelodau a'i gydweinidogion oherwydd ei wendidau fel bugail a gohebydd, ei ddulliau awtocrataidd, a'i ddifaterwch yngylch prydiondeb. Ond saif yn uchel yn rheng flaenaf gweinidogion yr enwad yn rhinwedd ei ddoniau mawrion fel pregethwr a gweinyddwr.

Awdur

Albert Hughes Williams, (1907 - 1996)

Ffynonellau

Samuel Davies, *Cofiant y Parch. Thomas Aubrey* (Bangor 1887)

A. H. Williams, *Welsh Wesleyan Methodism, 1800-1858 its origins, growth and secessions* (1935)

City Road Magazine, 1871

Darllen Pellach

Y Parch. Thomas Aubrey', Y Geninen, Ebrill 1901, tt.151-154

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907), tt.15-16

Delweddua

John Thomas, *Parchg Thomas Aubrey (1808-67)*

John Thomas, *Parch. Thomas Aubrey*

D. Wolstenholme, *Rev. Thomas Aubrey Wesleyan Minister*

John Cochran, *Revd. Thomas Aubrey*

John Williams, *Parch. Thomas Aubrey*

John Thomas, Thomas Aubrey

John Thomas, Er cof am y diweddar Barch Thos Aubrey...

John Thomas, Parch Thos Aubrey

John Thomas, Welsh Wesleyan Ministers, multi-portrait

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734417

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnodi](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Williams, A. H., (1953). AUBREY, THOMAS (1808 - 1867), gweinidog Wesleiaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-AUBR-THO-1808>

[Copio i'r clipwriad](#)

Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddiwr gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government